
# Strategaeth Tlodi Plant
Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Mawrth 2015

Crynodeb i blant a phobl ifanc

# Tlodi Plant

**Mae gan Lywodraeth Cymru ddyhead i wneud yn siŵr nad oes unrhyw blentyn yn byw mewn tlodi erbyn 2020.**

**Ystyr tlodi yw bod heb ddigon o arian i brynu bwyd, dillad a rhywle diogel i fyw.**

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yng Nghymru'n cael bywydau hapus ac iach sy'n llawn cyfleoedd.

Mae tlodi'n atal hyn rhag digwydd. Mae'n gallu arwain at blant a phobl ifanc yn cael iechyd gwael, yn peidio â gwneud cystal yn yr ysgol, yn peidio â chael lleoedd diogel i chwarae ac yn methu cyfleoedd y mae eraill yn eu mwynhau.

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthych chi am ein

**Strategaeth Tlodi Plant Cymru** newydd.

Mae'r strategaeth yn manylu ar ein gweledigaeth a'n nodau ar gyfer Cymru, ac mae hawliau plant yn ganolbwynt iddi.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn manylu ar yr hawliau yma, ac mae CCUHP yn gyfraith yng Nghymru. Mae'n dweud bod gan yr holl blant hawl i gael beth bynnag sydd ei angen arnyn nhw ar gyfer bywyd.

## Mae trechu tlodi hefyd yn lleihau anghydraddoldeb.

Mae rhai grwpiau o bobl sydd â'r risg fwyaf o fyw mewn tlodi hefyd yn wynebu anghydraddoldeb mewn ffyrdd eraill. Mae hyn yn cynnwys pobl o wahanol grwpiau ethnig, ffoaduriaid, pobl anabl, rhieni sengl, pobl hŷn a phobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Bydd y strategaeth yma'n gweithio gyda pholisïau eraill sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac sydd â ffocws ar helpu a chefnogi pobl o bob cefndir.



## Cyrraedd ein targed ar gyfer 2020.

Ni allwn ni drechu tlodi ar ein pennau ein hunain. Mae angen i ni gydweithio â'r canlynol:

- y bobl sy'n darparu gwasanaethau fel iechyd, addysg a thai
- elusennau
- mudiadau gwirfoddol
- busnesau
- cymunedau
- teuluoedd

Mae angen i ni hefyd weithio gyda phlant a phobl ifanc eu hunain a rhoi'r cyfle iddyn nhw ddweud eu dweud a rhoi gwybod i ni beth sydd ei angen arnyn nhw.

Mae'r strategaeth yma hefyd yn cyd-fynd â pholisïau a chynlluniau eraill sydd gennym ni, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi.

Mae yna rai pethau sy'n effeithio ar dlodi, fel y systemau treth a budd-daliadau, nad yw'r grym gennym ni i'w newid. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r Diwygiadau Lles y mae Llywodraeth y DU yn eu cyflwyno'n ei gwneud hi'n fwy anodd byth trechu tlodi.

## Pam y mae angen Strategaeth Tlodi Plant arnom ni?

Mae tlodi plant yng Nghymru'n dal i fod yn rhy uchel!

Mae yna ormod o deuluoedd o hyd lle nad oes gan unrhyw un swydd am dâl, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol eu bod nhw'n byw mewn tlodi.

Mae tlodi'n risg hyd yn oed i deuluoedd sy'n gweithio. Gall hyn fod oherwydd nifer o wahanol bethau, gan gynnwys lefel eu cyflog, p'un a yw pobl yn gweithio rhan-amser ac faint maen nhw'n ei wario ar bethau fel bwyd, gwres a thai.




Yn ôl y ffigyrau ar gyfer 2010/11 i 2012/13, mae rhyw 200,000 o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi. Mae hynny'n 31%, neu bron iawn yn un ym mhob tri!



## Ein nodau

**Wrth gytuno ar y strategaeth yma, rydyn ni wedi gosod 5 nod.**

1. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod yna lai o lawer o blant yn byw mewn teuluoedd lle nad oes unrhyw un yn mynd i weithio.
2. Rydyn ni eisiau cefnogi rhieni a phobl ifanc i gael sgiliau gwell o lawer, a fydd yn eu helpu nhw i gael swyddi gwell.
3. Rydyn ni eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gael yr un cyfleoedd, ac nid ydyn ni eisiau i unrhyw un gael ei ddal yn ôl oherwydd tlodi. Mae'n arbennig o bwysig ein bod ni'n gwneud mwy i gefnogi pobl i gael iechyd a chanlyniadau addysg gwell.
4. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod economi Cymru mor gryf â phosibl, fel bod yna fwy o swyddi sy'n talu'n dda.
5. Rydyn ni eisiau cefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi trwy roi cyngor iddyn nhw ar ddyledion ac arian, atal y 'premiwm tlodi' a lleihau'r problemau y bydd newidiadau i'r system fudd-daliadau'n eu hachosi.

**Premiwm tlodi**

Mae teuluoedd sydd mewn tlodi'n aml yn gorfod talu mwy (ac yn aml yn talu cyfran fwy o'r incwm sy'n dod i mewn i'r tŷ) am bethau fel bwyd a thanwydd.

## Pethau allweddol y byddwn ni'n eu gwneud i leihau tlodi plant

Dyma'r pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud i'n helpu ni i gyrraedd ein nodau.

## Y rhifau rydyn ni'n edrych arnyn nhw i fesur y gwahaniaeth

I wneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n gweithio, mae yna rifau y byddwn ni'n edrych arnyn nhw i weld a yw pethau'n newid ac yn gwella i deuluoedd ar incwm isel.



## 1. Lleihau nifer y teuluoedd lle nad oes unrhyw un yn gweithio.

Mae’n bwysig ein bod ni’n cefnogi rhieni i gael profiad gwaith, i ennill sgiliau newydd ac i roi’r hyder iddyn nhw gael swydd.

### Pethau allweddol y byddwn ni’n eu gwneud i leihau tlodi plant

- **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** sy’n gweithio i leihau nifer y bobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- **Prentisiaethau** fel bod pobl ifanc yn cael y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer swyddi.
- **Gofal plant** fel bod rhieni’n gallu mynd i weithio.
- **Cyllid Ewropeaidd** i helpu teuluoedd lle nad oes unrhyw un yn gweithio.
- **Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf** sy’n gweithio gyda theuluoedd sy’n wynebu problemau oherwydd tlodi.
- **Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc** fel bod pobl ifanc yn cael help â chostau trafnidiaeth.
- **Rhaglen Esgyn** sydd â nod i ddarparu 5000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.

### Deilliant

- beth rydyn ni eisiau iddo ddigwydd

**Mae nifer y plant sy’n byw mewn teuluoedd lle nad oes gan unrhyw un swydd am dâl wedi lleihau.**

### Y rhifau rydyn ni’n edrych arnyn nhw i fesur y gwahaniaeth

- Canran y plant sy’n byw ar aelwydydd heb waith
- Canran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy’n NEET
- Canran y bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed sy’n NEET

## 2. Cynyddu'r sgiliau sydd gan rieni a phobl ifanc.

Mae sgiliau'n helpu pobl i gael swyddi, neu swyddi sy'n talu'n well. Mae hyn yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn i drechu tlodi ym mywydau pobl.

### Pethau allweddol y byddwn ni'n eu gwneud i leihau tlodi plant

- **Strategaeth Sgiliau i Gymru** yw ein cynllun i wneud yn siŵr bod gan Gymru'r holl sgiliau sydd eu hangen arni fel cenedl.
- **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** sy'n gweithio i leihau nifer y bobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- **Porth Sgiliau** sy'n helpu pobl i ddod o hyd i swyddi a hyfforddiant yn haws.
- Cyfleoedd **Gwirfoddol**.
- **Cyllid Ewropeaidd** i gefnogi pobl i hyfforddi ac ennill sgiliau.
- **Dysgu Oedolion a'r Gymuned** sy'n cynnig cyrsiau a chyfleoedd dysgu.
- **Dysgu yn y Gymuned** fel bod yna wahanol ffyrdd i bobl ddysgu.

### Deilliant

- beth rydyn ni eisiau iddo ddigwydd

**Mae gan rieni a phobl ifanc fwy o sgiliau i'w helpu nhw i gael swydd dda am dâl, a'i chadw.**

### Y rhifau rydyn ni'n edrych arnyn nhw i fesur y gwahaniaeth

- Canran yr oedolion â sgiliau sylfaenol
- Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd â chymwysterau ar lefelau 2, 3 neu 4 ac uwch.





# 3A. Gwella deilliannau addysgol plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Mae'n bwysig ein bod ni'n cefnogi teuluoedd mor fuan â phosibl fel bod plant yn gallu tyfu i fyny mewn cartrefi lle gallan nhw ddysgu, bod yn iach ac ennill y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer y dyfodol. Mae ysgolion ac athrawon yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth hefyd.

## Pethau allweddol y byddwn ni'n eu gwneud i leihau tlodi plant

- **Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant** sy'n cefnogi pob plentyn, o'u geni hyd at saith oed.
- **Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar Ymgysylltiad a Chymorth** fel bod sefydliadau'n gwybod y ffyrdd gorau i gefnogi rhieni.
- **Ailysgrifennu'r Dyfodol** fel bod ysgolion yng Nghymru bob amser yn gwella ac yn rhoi'r cyfleoedd gorau i blant.
- **Grantiau ar gyfer ysgolion** i helpu disgyblion sy'n wynebu tlodi.
- **Dechrau'n Deg** sy'n cefnogi plant fel eu bod nhw'n cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- **Prydau Ysgol / Brecwast am Ddim** sy'n rhoi prydau bwyd iach i blant.
- **Her Ysgolion Cymru** sy'n rhoi cymorth ychwanegol i ysgolion.

## Deilliant

- beth rydyn ni eisiau iddo ddigwydd

**Mae deilliannau addysg plant a'u teuluoedd yn llai anghyfartal.**

## Y rhifau rydyn ni'n edrych arnyn nhw i fesur y gwahaniaeth

- Canran y plant 7 oed sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd y nodau y dylen nhw eu cyrraedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
- Canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd y nodau y dylen nhw eu cyrraedd yng Nghyfnod Allweddol





# 3B. Gwella deilliannau iechyd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Mae'n bosibl bod plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn tlodi hefyd yn wynebu mwy o broblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Gall hyn fod oherwydd pethau fel byw mewn tai sydd o ansawdd gwael, bod yn ddigartref neu bod heb ddigon o leoedd diogel i chwarae yn yr awyr agored.

## Pethau allweddol y byddwn ni'n eu gwneud i leihau tlodi plant

- **Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl** sy'n gwella bywydau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.
- **Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb** sy'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cael y cymorth iechyd gorau posibl ac nad oes unrhyw un yn wynebu anghydraddoldeb oherwydd tlodi.
- **Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** sydd â nodau i wella lles nawr ac yn y dyfodol i bawb yng Nghymru.
- **Gwasanaethau GIG y blynyddoedd cynnar** i roi dechrau iach i bob plentyn.
- **Rhaglenni Tai** sy'n cefnogi pobl i ddod o hyd i gartref sy'n diwallu eu hanghenion, a'i gadw.

## Deilliant

- beth rydyn ni eisiau iddo ddigwydd

**Mae deilliannau iechyd plant a'u teuluoedd yn llai anghyfartal.**

## Y rhifau rydyn ni'n edrych arnyn nhw i fesur y gwahaniaeth

- Canran y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel
- Canran y plant ar aelwydydd incwm isel sy'n cyrraedd cerrig milltir iechyd, cerrig milltir cymdeithasol a cherrig milltir datblygiad eraill y dylen nhw eu cyrraedd cyn iddyn nhw ddechrau'r ysgol

# 4. Gwneud yn siŵr bod Cymru'n tyfu, ei bod hi'n ariannol gryf, a bod yna ddigon o swyddi.

Mae angen i Gymru ddal ati i greu swyddi newydd a chyfleoedd newydd i gael pobl i mewn i waith ac allan o dlodi.

## Pethau allweddol y byddwn ni'n eu gwneud i leihau tlodi plant

- **Cymorth ar gyfer twf economaidd a thwf busnes** ledled Cymru fel bod yna fwy o swyddi sy'n talu'n dda.
- **Cynllun Datblygu Gwledig** sy'n helpu i gefnogi cymunedau gwledig.
- **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol** sy'n helpu pobl i fynd i gwaith ac yn cefnogi busnesau i gludo nwyddau.
- **Band Eang y Genhedlaeth Nesaf** fel bod busnesau a chymunedau'n gallu tyfu yng Nghymru.

## Deilliant

- beth rydyn ni eisiau iddo ddigwydd

**Mae teuluoedd ar incwm isel yn cael eu cefnogi ac yn cael gwell deilliannau cyflogaeth.**

## Y rhifau rydyn ni'n edrych arnyn nhw i fesur y gwahaniaeth

- Canran y plant sy'n byw mewn tlodi
- Canran y plant sy'n byw mewn tlodi lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio
- Canran y plant sy'n byw mewn teuluoedd lle nad oes gan unrhyw un swydd





# 5. Cefnogi pobl i gynyddu eu hincwm ac atal y premiwm tlodi.

Rydyn ni'n gwneud hyn trwy gynnig gwasanaethau cynghori, lleihau costau tai ac atal teuluoedd ar incwm isel rhag gorfod talu mwy am fwyd, tanwydd, tai a biliau eraill.

## Pethau allweddol y byddwn ni'n eu gwneud i leihau tlodi plant

- **Strategaeth Tlodi Tanwydd** sy'n helpu pobl i gynhesu eu cartrefi.
- **Cyngor Da, Bywyd Da** sy'n rhoi cyngor i deuluoedd ar Fudd-daliadau Lles.
- **Deddf Tai (Cymru) 2014** sy'n cefnogi teuluoedd i gael cartrefi fforddiadwy sydd mewn cyflwr da mewn cymunedau diogel.
- **Cyngor ar gael** i gefnogi teuluoedd i wneud y gorau o'u harian a chwtogi ar gostau.
- **Undebau Credyd** sy'n helpu pobl i gael yr help a'r cymorth ariannol sydd ei angen arnyn nhw.
- **Nofio am ddim a mynediad am ddim i amgueddfeydd** fel bod pob plentyn yn gallu chwarae rhan mewn gweithgareddau.
- **Prydau Ysgol / Brecwast am ddim** fel bod plant a phobl ifanc yn gallu cael prydau bwyd iach.

## Deilliant

- beth rydyn ni eisiau iddo ddigwydd

**Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i gynyddu incwm eu haelwyd ac i wneud y gorau o'u harian.**

## Y rhifau rydyn ni'n edrych arnyn nhw i fesur y gwahaniaeth

- Canran y plant sy'n byw mewn tlodi
- Canran y plant sy'n byw mewn tlodi mewn gwaith





## Y camau nesaf

Mae yna nifer o bethau rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw i'n helpu ni i gyrraedd ein pum nod.

- Helpu teuluoedd i ddeall a pharatoi ar gyfer y newidiadau i'r system fudd-daliadau y mae Llywodraeth y DU yn eu cyflwyno
- Gwneud yn siŵr bod yna ofal plant lleol o ansawdd da
- Atal tlodi bwyd
- Atal tlodi mewn gwaith
- Gwneud yn siŵr bod yna fwy o dai fforddiadwy a da mewn cymunedau diogel

Pan nad yw pobl yn gallu cael gafael ar fwyd ar gyfer deiet iach, neu pan dydyn nhw ddim yn gallu ei fforddio yw **tlodi bwyd.**

## Archwilio

Mae gennym ni grŵp o weithwyr proffesiynol o'r enw **'Bwrdd Gweithredu Trechu Tlodi'**. Mae aelodau'r grŵp yma'n gwneud yn siŵr bod y strategaeth yma'n gweithio. Byddwn ni'n adrodd ar y dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Tlodi Plant yma bob blwyddyn.

## Diolch yn fawr am ddarllen hwn.


Os ydych chi eisiau gwybod mwy am y strategaeth yma, yna cliciwch yma:

Os ydych chi eisiau cysylltu â ni:

TacklingPoverty-MinisterialBusiness@Wales.GSI.Gov.UK

neu

Yr Is-adran Trechu Tlodi
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ



ISBN 978-1-4734-3308-3
© Hawlfraint y Goron 2015